# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 24 Chwefror 2021

Amser: 09.30 - 11.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/11121

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Llyr Gruffydd AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Mike Hedges AS<br>Mark Isherwood AS<br>Rhianon Passmore AS<br>Mark Reckless AS |
| Tystion: | Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd<br>Andrew Jeffreys, Dirprwy Gyfarwyddwr, Buddsoddi Cyfalaf Strategol, Llywodraeth Cymru<br>Gawain Evans, Llywodraeth Cymru<br>Matthew Denham-Jones, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod rhithwir.

1.2 Nododd y Cadeirydd fod Nick Ramsay AS bellach wedi gadael y Pwyllgor, a diolchodd iddo am ei gyfraniad at waith y Pwyllgor.

1.3 Croesawodd y Cadeirydd Mark Isherwood AS fel aelod newydd o'r Pwyllgor.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.1 **PTN 1 - Craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru: Ymateb Archwilio Cymru i argymhellion y Pwyllgor - 22 Ionawr 2021**

2.2 **PTN 2 - Llythyr gan Archwilio Cymru - Amcangyfrif Atodol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21 - 27 Ionawr 2021**

2.3 **PTN 3 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: Gwybodaeth am gyfalaf trafodiadau ariannol a chyllid canlyniadol fformiwla Barnett i Gymru - 21 Ionawr 2021**

2.4 **PTN 4 - Ail gyllideb atodol Llywodraeth Cymru - ymateb Llywodraeth Cymru - 19 Ionawr 2021**

2.5 **PTN 5 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd - cyfraddau amhreswyl a throthwyon Treth Trafodiadau Tir (TTT) - 2 Chwefror 2021**

2.6 **PTN 6 - Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol at Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU - 2 Chwefror 2021**

2.7 **PTN 7 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: Gwaith modelu ar gyfer prydau ysgol am ddim - 9 Chwefror 2021**

2.8 **PTN 8 - Llythyr gan Hafal: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 - 17 Chwefror 2021**

## 3 Trydedd Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ynghylch trydedd gyllideb atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 gan y tystion a ganlyn: Rebecca Evans AC, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd; Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr, Trysorlys Cymru; Gawain Evans, Cyfarwyddwr Cyllid; a Matthew Denham-Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr, Rheolaethau Ariannol.

3.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu:

- Manylion pellach, drwy'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ynghylch y gwaith sy'n cael ei wneud i wella'r broses o rannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol ac eilaidd.

- Gwybodaeth bellach, drwy'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, ynghylch cronfa galedi'r awdurdodau lleol, ac yn benodol ynghylch y fformiwla sy'n ymwneud ag arbedion a gollwyd gan awdurdodau lleol o ganlyniad i'r pandemig.

- Manylion pellach ynghylch y cyllid sydd wedi'i ddyrannu i gefnogi busnesau yn ystod y pandemig.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Trydedd Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21: Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Trafod Cynllun Ffioedd Archwilio Cymru 2021-22

6.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor Gynllun Ffioedd Archwilio Cymru ar gyfer 2021-22 o dan Reolau Sefydlog 18.10(x) yn unol ag adran 24(7) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

## 7 Trafod papur y flaenraglen waith

7.1 Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith.